❖ Gwelsom ei Oleuni

Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr:
Y rhai fu'n byw mewn gwlad o gaddug dudew
a gafodd lewyrch golau.
Rhoddodd yr Arglwydd i ni oleuni'r haul:
I lawenhau yng ngogoniant ei gread.
Rhoddodd yr Arglwydd i ni oleuni ei air:
Yn llusern i'n traed ac yn llewyrch i'n llwybr.
Rhoddodd yr Arglwydd i ni ei Fab Iesu Grist:
Goleuni i oleuo'r cenhedloedd a gogoniant i'w bobl Israel.
Rhoddodd yr Arglwydd i ni loywder ei Ysbryd:
I'n harwain i bob gwirionedd ac i roi i ni fywyd.
Y mae gogoniant yr Arglwydd yn llewyrchu ar y cyfiawn:
A'i lawenydd ar y rhai uniawn o galon.
Arglwydd, tyrd atom yn dy gariad gloyw,
a rho i ni o lawnder y bywyd sydd ynot ti.

Susan Sayers